

## Allan yn Steddfod y Bala, ar ôl hir ymaros Enwau Gwyfynod, Glöynnod Byw a Gweision Neidr

Cyfrol 3 - Cyfres Enwau Anifeiliaid a Phlanhigion Cymdeithas Edward Llwyd



**Rhifyn Gwyfynod a  
Glöynnod Byw**

Llun: Wil Williams, Bodorgan  
(Mantell Dramor - un o filoedd eleni)

### Mentyll tramor a chenlysg dramor

Ar yr 8fed Awst 1994 cofnododd rhywun a oedd ar fordaith yn y "Southwestern Approaches" dri glöyn byw - mentyll tramor - yn hedfan dros y tonnau. Mae'r fantell dramor yn ddjarhebol am ei allu i deithio pellteroedd meithion ac ar adegau o'r math caiff ei hel, glocwedd o gwmpas gwasgedd uchel, o Affrica i'r môr cyn cyrraedd glannau Cymru. Cefais gofnodion yn Nyddiadur Llên Natur o'r glöynnod yn cyrraedd ein glannau ychydig ar ôl hyn.

Erbyn canol Mai eleni, nid oeddwn wedi gweld yr un o'r glöynnod mawr praff yma yn yr ardd ers dwy flynedd. Ond dyma lano yn Ffrainc ar wyliau a gweld rhif y gwllith ohonynt yn y dolydd o un pen y wlad i'r llall. Ai cenhedlaeth leol oedd y rhain ynteu fewnfudwyr? Cyrraedd yn ôl o Ffrainc ddechrau mis Mehefin a'r stori'n dew ary radio ac ymysg naturiaethwyr am y mentyll tramor yma hefyd - ia,

roedden nhw wedi cyrraedd Cymru fach yn fabsenoldeb. Y tywydd ffafriol o gwmpas y 26ain o'r mis oedd yn gyfrifol, a'u magwrf a oedd Mynyddoedd yr Atlas, Moroco, lle bu'n cenhedlu yn arbennig o lwyddiannus eleni yn ôl y son. Soniodd rhai ar wyliau yn y wlad honno am "filiynau" o löynnod yn symud dros ffrynt o 100Km. Dyma ymfudiad mwyaf y fantell dramor i Brydain erioed meddai un arbenigwr. Cafodd Rhys Jones "gannoedd" yn Aberdaron, a gwelodd Twm Elias dri wrth y



Twll Du yng Nghwm Idwal, ymhell o'u cynefin arferol.

Pan oeddwn yn Ffrainc roedd yna stori arall yn dew yn ardal Brive la Gaillard yn y Dordogne. Stori am storm genllysg a ddigwyddodd yno ar y 21 Mai. Roedd y storm yn ddigon hegr i gyrraedd y papur newydd lleol La Montagne (Rhifyn 17) a gwnaeth y peli rhew gryn ddifrod i dai, ceir a chnydau. Dywedwyd i mi gan y trigolion lleol eu bod nhw wedi

hen arfer â chenlysg a bod yr erwau o goed falau sydd yn bwysig i'r economi leol yn gorfod cael eu hamddiffyn gan rwydi rhag y cenlysg mynych.

Ar ôl dychwelyd adref holais fy nghyfaill o feteorolegydd Huw Holland Jones am y tywydd a arweiniodd at y mewnfudiad o löynnod byw, a dyma a ddywedodd: "Hyd at yr 16 Mai gwyntoedd de-orllewinol o'r lwerydd oedd yn chwythu'n bennaf - dim gwynt teg i löynnod o'r cyfeiriad hwnnw! Ond o'r 16eg ymlaen ymsefydlodd batrwm o wyntoedd deheuol

dros Ewrop yn deillio o ogledd-orllewin Affrica diolch i bwysedd uchel parhaol yn ymestyn o ganol Môr y Canoldir i dde'r Sahara. Bu hwnnw yn gyfrifol am yrru awyr poeth i'n cyfeiriad ni ar hyd ei ystlys orllewinol. Yn Ffrainc ar yr 21ain Mai daeth yr awyr poeth hwn i gyffyrddiad ag awyr oerach o Fae Biscaia, a dyna mae'n debyg oedd yn gyfrifol am y storm genllysg a gafwyd yn Brive y diwrnod hwnnw".

Adasiad o erthygl yn Y Cymo

## Gwneud scyntar i ddal llymeirch

Am y tro cyntaf ers 36 mlynedd y mae Mr William Jones, y gof yn Aberdaron, yn hwylio ati i wneud scyntar i ddal llymeirch. Dyma'r enwau a ddefnyddia ef yn hollol rwydd a naturiol am dredge i ddal oysters. Bwriada un o gychwyr Aberdaron roi cynnig ar ddal llymeirch yng nghyffiniau Ynys Enlli yr haf eleni. Bu hynny'n rhan pur llwyddiannus o'r diwidiant pysgota yn Enlli flynyddoedd yn ôl - ac i'r diweddar Love Pritchard, Brenin Enlli, y gwnaeth Mr Jones y gof, yr unig scyntar a luniodd ef erioed. 'Roedd ar y Brenin ei eisiau i godi llymeirch ar ôl iddo ymdeol ac ymfudo gyda'i deulu i'r tir mawr yn 1925.

### Y CYNLLUN

Bydd y scyntar yn mesur saith troedfedd wrth bum troedfedd. Ar ei drwyn gosodir llafrn miniog i godi'r llymeirch oddi ar greigiau gwaelod y môr. Tu ol i'r llafrn bydd cyfresi o fan gylchau haearn a bach 'S' yn eu cydio'n ei gilydd, a darn o haearn ymhob cornel i ddal rhwyd ar y top. Ofer, wrth gwrs, fyddai rhoi rhwyd ar y gwaelod - byddai'n grybion yn fuan iawn. Tynnir y scyntar â rhaff o gwch ond mae rhaid ymorol y bydd yr haearn-tynnu ar yr offer ei hun ar ogwydd arbennig neu fe godir y llafrn oddi ar y gwaelod. Aeth y scyntar cyntaf a luniodd Mr Jones i afael Dafydd Jôs. Defnyddiodd olynwyr y perchennog gwreiddiol raff rhy wan i'w dynnu. Gwnaeth Mr Jones y scyntar hwnnw yn ôl cyfarwyddyd yr hen bobol ac mae'r patrwm ganddo yn ei ben o hyd.

(Mair Williams yn tyngu ar ei chof o erthygl yn y Cymro)

## Lhynni Talyhyn

*Lhyn Myngul, a small mile in length the lower end reaches to ye church.* [Llyn Talyllyn fel arfer heddiw]

*Lhyn Penmorva, als [alias] Lhyn y tri Grayenyn ym Mlaen K Rhwydhfor ar dervyn pl. Dol Gelhey* ["Penmorfa" - difyr!]

© Parochialia gan Edward Llwyd (1696) yn Archæologia Cambrensis 1909(1)

## Dotio at y Gwyfyn Dotiog.....Arfon Owen



21 Medi 2008:

Cefais hyd i'r lindys hwn a'r ddeilen blodyn haul. Fe'i cadwais a'r ddail y blodyn mewn blwch plastig gan newid y dail yn ddyddiol

19 Hydref 2008:

Datblygodd yn biwpa ac yno y bu ar yr hen ddail - fe'i chwistrellais yn wythnosol ac ar y 16 Mehefin 2009: Deorodd gan ddangos mai gwyfyn dotiog ydoedd.

[Mae Arfon, cyn ffermwr defaid a magwr ieir, wedi troi ei law erbyn hyn i fagu gwyfynod...ac yn cael cryn lwyddiant (gweler tudalen 4)]



## Ilun "newydd" gan TG Walker



Daeth y braslun-beiro hwn o Castell Tomar, Portiwgal gan yr adarydd, y llenor a'r athro o Fôn, TG Walker, i'r fei ar un o dudalennau cefn ei ddyddiadur sydd erbyn hyn yn eiddo i Wil Evans, Gwalchmai. Dyma ddywedodd TGW yn y dyddiadur y diwmod y dyluniodd y llun ar y 31 Mawrth 1971:

*A cloudy day, odd spots of rain. From Nazare to Leira, then to Fatima. From there to Tomar to stay the night. Hilly country, varied & lovely scenery all the way. Tomar itself is beautiful. Saw 3 small greenish birds, with prominent yellow rumps, on the fringe of a pinewood. Saw a kestrel. Examined contents of resin bowl 1/2 full of strong smelling clear liquid. Played billiards with H & got badly beaten!*

Beth amdani chi adaryddion - beth oedd y 3 aderyn?

## Pier Llandudno 25 Awst 1923

*Herring Gulls, mostly this year's mottled birds being fed by visitors food thrown high was nearly always caught, if the birds, which flew in circles, were within reach of the morsels, but if the morsels were below the birds' flight they did not dive after them, nor make a sharp turn to have a 2nd shot...On the ground, & flying when they picked up a morsel which touched the ground, were kittiwakes [gwylannod coesddu], mostly young, with broad bar across end of tail feathers, & dark lines & patches on their wings in flight. The adult birds showed no brown or black anywhere, wing a back were bluish, head & neck pure white. a few jackdaws also picked up (only) the fallen scraps, and there were actually sparrows on the stones & seaweed, which often got bits.* [Gwylannod coesddu yn cymryd sbarion?]

Dyddiadur di-enw o Dywyn Abergele (Parch. John Thomas efallai)



gwylannod coesddu Ilun: Alun Williams

## Les Escargots du Perche



Ffermwyr malwod Fabienne et Philippe Couvreur yn ardal de Normandi . Dyma M. Couvreur yn dangos ei gynnyrch - llond gwlad o'r *petits gris*. Am fwy o wybodaeth ewch i [www.escargots-du-perche.com](http://www.escargots-du-perche.com) (Dydwi ddim eto wedi mentro bwyta'r malwod a brynais g a n d d o . . . o n d peidiwch â dweud wrtho! DB)

## Tywydd annisgwyl

A week last Monday 15 June at about 12:30 pm., I was driving through Trefnant, Denbighshire. It had been very warm and sunny. Then there was a sudden thunderstorm, followed by a hailstorm. The road became covered in hail within a few minutes (see attached picture). Passing cars experienced some difficulty gripping the road surface, I'm sure it was likely there would have been a few accidents due to the sudden change in conditions. The hail was followed by extremely heavy rain lasting a further ten minutes, this cleared the hail on the road quickly. The tarmac surface then began to let off steam, because of the warmth it had retained from the earlier sunshine. Later in the afternoon (tea timeish) I experienced a similar return of these conditions as I drove passed Oxford on the A34.



Y llun a'r stori gan Steve Roddick, Ynys Môn.

## Llun y mis.....lfor Dylan Williams



## Ymateb Sion Roberts i lun Alun Williams o grocbren tyrchod yn yr Oriol (Rhifyn 15)

Anodd dal twrch daear (gwahadden) mewn trap... mae hi yn grefft, ac felly fe fyddai ffermwyr yn talu eraill i wneud y gwaith. Dyma sut maent yn hysbysu eu llwyddiant. Ers y 1970au tan yn ddiweddar fe ddefnyddwyd strychnine i ddifa tyrchod - cymysgu strychnine gyda pryfed genwair (llyngyr) mewn pot jam, ac yna rhoi'r pryfed genwair lawr dwll y twrch. Ni chaniateir defnyddio strychnine nawr, ac felly mae'r trap, helwyr tyrchod, a thraddodiad fel hyn yn dychwelyd.



**Pidyn-y-gog y Gors *Calla palustris*** yn tyfu'n wyllt o dan Gweredog Isaf Waunfawr. Meddai Wendy McCarthy (Cofnodwraig Planhigion Sir Gaernarfon) "Diolch yn fawr am y cofnod o *Calla palustris* yn Waenfawr, y cofnod cyntaf am Sir Gaernarfon, a Gorllewin Cymru hefyd, fel chi'n dweud".

*A rhizomatous perennial herb which grows as floating mats at the edges of lakes and ponds, or rooted in marshes and wet Alnus woodland. Reproduction is vegetative by rhizome fragments; seeds are produced in Britain (and avidly eaten by ducks) but details of germination are unknown. Calla palustris was cultivated in Britain by 1738. It was planted at Black Pond (Surrey) in 1861, and persisted for at least 30 years. Another population in Surrey, at Bolder Mere, persisted for over 60 years.*

Atlas Planhigion Prydain

L l ê n y P e t h a u B y w

## Sgriffiadau Aber



Carreg miniogi saethau? Dyffryn Abergwyngregyn  
(Llun: Twm Elias)

## Cafwyd lawnsiad...!



Ar y 25 Mehefin cawsom ein lawnsio yn swyddogol gan Y Gwir Anrhydeddus Dafydd Wigley (a fu mor garedig a chamu i'r adwy oherwydd anallu funud olaf Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas i ddod.

Cawsom gyfraniadau hefyd gan Delyth Prys (Canolfan Bedwyr), Meinir Wigley (Cyngor Cefn Gwlad) a Chadeirydd y Gymdeithas Ieuan Roberts. Dilynwyd y lawnsiad gan weithdai hyfforddiant gyda Gwyn Williams (Cyfrifiaduron), Rhiannon Michaelston-Yeates (ffynonellau defnyddiol yn y Llyfrgell Genedlaethol) a Sharon Owen (Hanes Llafar). Diolch i bob un, ac yn arbennig hefyd i Aneurin Phillips a staff Plas Tan y Bwlch am eu cefnogaeth proffesiynol llwyr.

## Morwenoliaid Mawr

Cofnod 6 Awst 1924 (Foryd, Abergele)

*Very large Tern overhead by Foryd, with raucous strange cry, flying seaward*

Dyddiadur (tonedig) y Parch. John Thomas

Meddai Rhys Jones: Y forwennol 'na yn Foryd, Abergele - un ai *Royal* [morwennol fawr] neu *Caspian* [y forwennol fwyaf]. *Caspian* yn fwy tebygol ond ....ddoe fe ddaeth Dave Lamacraft o hyd i Forwennol fawr iawn yn Porth Ceiriad. Aeth Simon a fi i lawr i



Abersoch i edrych amdani. Roedd hi rhyw ddwy filltir i ffwrdd wrth ynysoedd Tudwal ond yn ffodus fe hedfanodd i mewn i fae Abersoch a llwyddais i gal lluniau ohoni a chadarnhau mai *Royal* oedd hi, cyn i gerddwr ei dychryn. Yn ffodus fe'i ail-ddarganfyddwyd ar draeth Morfa Bychan cyn iddi nosi! Yr ail i Gymru a'r 5ed i Brydain.

[Rhys oedd yr unig un a lwyddodd i dynnu llun o'r aderyn (uchod). Gol.]

## Potato Creek Johnny

Yr haf diwethaf euthum i Deadwood yn South Dakota, ac yn Amgueddfa y dre gofynnais a fu Cymry yn flaenllaw yn y cylch rywdro. Dywedodd penaethes yr amgueddfa wrthyf fy mod yn sefyll o flaen llun o un o Gymry enwocaf y dre, "Potato Creek Johnny". Am fwy o wybodaeth holwch [www.lleennatur.com](http://www.lleennatur.com) (> Cronfeydd Gwybodaeth>chwilio>Llên y Creigiau) lain Ô hAnnaidh

## Ermin y Piswydd...Arfon eto!



Dyma wyfyn bach gafodd Arfon Owen yn ei ardd yn y Felinheli yn ddiweddar. Mae yna nifer o'r erminau hyn o'r genws *Yponomeuta*, rhai ohonynt, er yn debyg i hwn, yn ddipyn mwy cyffredin na rhain (nid yw'r piswydden - spindle - yn gyffredin iawn yng Ngwynedd). Ond cadarnhaodd Arfon mai dyna'r goeden a dyna'r pryf. Trwy gyd-digwyddiad tynnais innau (DB) y llun isaf o'r lindys ar biswydd yn Ffrainc yn ddiweddar - roedden nhw wedi dinoethi'r llwyni piswydd yn ddiethriad ar hyd

gogledd a gorllewin y wlad. Ai blwyddyn arbennig i rhain oedd eleni, yma a thramor?

## Fontinalis antipyretica



Mwsogl cyffredin iawn a geir mewn nentydd yw hwn a bum yn ceisio dyfalu ers stalwm beth yw tarddiad yr enw Lladin. Rhywbeth "gwrth tân" yw *antipyretica* ac mi gefais pob math o ffantasiau am ddynion y ffeiar-brigêd yn ei daflud at fflamau! Ond dyma ddau gynnig callach, y cyntaf o Wikipedia: "*Antipyretics (literally "against the fire") are drugs that reduce body temperature in situations such as fever*". A dyma a ddywed gwefan y *Royal Botanical Society of Edinburgh*: "*Mosses by their very nature are soft and absorbent and in many cultures have been traditionally used as bedding, padding and packing materials. Linnaeus gave Fontinalis antipyretica (a common north European aquatic moss) its Latin name because he observed Laplanders using it to caulk chimneys*". Yr ail esboniad yw'r tebycaf.